Cyllid &
Thollau EM

# Mynd i'r afael â thwyll alcohol drwy'r Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (Alcohol Wholesaler Registration Scheme - AWRS)

Cyflwynodd Cyllid a Thollau EM (CThEM) y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (AWRS) ar 1 Ionawr 2016 er mwyn mynd i'r afael â thwyll alcohol.

Os ydych yn gyfanwerthwr yn y DU a buoch yn gwerthu alcohol cyn 31 Mawrth 2016 i fusnesau eraill ar gyfer gwerthu neu gyflenwi ymlaen, ar neu ar ôl y pwynt pan oedd y doll ecséis yn ddyledus, yna dylech fod wedi gwneud cais am gymeradwyaeth AWRS erbyn 31 Mawrth 2016. Dylech fod wedi cael eich Cyfeirnod Unigryw oddi wrth CThEM cyn 1 Ebrill 2017.

Dylai cyfanwerthwyr yn y DU sydd ar hyn o bryd yn gweithredu ond heb wneud cais , wneud hynny nawr. Dylai busnesau newydd wneud cais am gymeradwyaeth AWRS 45 diwrnod cyn iddynt ddechrau masnachu.

Mae cosbau i gyfanwerthwyr yn y DU sy'n masnachu heb gymeradwyaeth AWRS.

O 1 Ebrill 2017 ymlaen bydd eich cwsmeriaid yn gyfrifol am wirio'u bod yn prynu alcohol oddi wrth gyfanwerthwyr yn y DU sydd wedi'u cymeradwyo.

Am ragor o wybodaeth ewch i GOV.UK a chwilio am y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol ('Alcohol Wholesaler Registration Scheme').

Peidiwch â chael eich dal allan.



Cyllid &
Thollau EM

# A ydych yn prynu alcohol oddi wrth gyfanwerthwr yn y DU ar gyfer gwerthu neu gyflenwi ymlaen?

O 1 Ebrill 2017 ymlaen, bydd yn drosedd i brynu alcohol, ar gyfer gwerthu neu gyflenwi ymlaen, oddi wrth gyfanwerthwr yn y DU sydd heb ei gymeradwyo.

Cyflwynwyd y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (***Alcohol Wholesaler Registration Scheme*** - AWRS) i helpu Cyllid a Thollau EM (CThEM) fynd i'r afael â thwyll alcohol.

Bydd angen i fusnes sy'n prynu alcohol oddi wrth gyfanwerthwr yn y DU ar gyfer gwerthu neu gyflenwi, wirio bod ei gyfanwerthwr wedi'i gymeradwyo gan CThEM o dan yr AWRS.

Gallwch wirio a yw'ch cyfanwerthwr yn y DU wedi cael cymeradwyaeth AWRS drwy ddefnyddio'r gofrestr cyfanwerthwyr alcohol ar-lein yn www.gov.uk/check-alcohol-wholesaler-registration. Bydd angen cyfeirnod unigryw'r cyfanwerthwyr arnoch, a dylai hwn fod ar yr anfoneb. Siaradwch â'ch cyfanwerthwr os na allwch ddod o hyd i'w Gyfeirnod Unigryw.

Unwaith y byddwch wedi dod o hyd i'ch cyfanwerthwr ar y gofrestr, cadwch gofnod o'ch gwiriad drwy argraffu neu gadw'r dudalen i gadarnhau'i fod wedi'i gymeradwyo. Efallai y bydd CThEM yn gofyn i chi am y manylion hyn yn nes ymlaen.

Os na allwch ddod o hyd i'ch cyfanwerthwr ar y gofrestr, rhowch wybod bod angen iddo gysylltu â CThEM i gael cymeradwyaeth. Ni ddylech brynu alcohol oddi wrtho a dylech hysbysu CThEM drwy chwilio am Dollau, Ecséis a hysbysu am dwyll TAW ar GOV.UK.

Gall busnes sy'n prynu alcohol oddi wrth gyfanwerthwr yn y DU sydd heb ei gofrestru gael ei stoc alcohol wedi'i hatafaelu. Gall hefyd cael ei gosbi neu ei erlyn.

Am ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol.

Peidiwch â chael eich dal allan.

